**Cofnodion Cyfarfod CCG 7.6.22**

Cynhaliwyd yn Neuadd Cymuned Glantwymyn ac ar-lein

*19:380: Presennol*: Dafydd Evans (Cadeirydd am y noson) Deryck Lewis, Bedwyr Fychan, Gareth Owen, Gwenfair Davies, Sandra Evans (Clerc)

*19:381: Ymddiheuriadau*: Aled Griffiths, Aeron Pughe, Iwan Jones (Is-gadeirydd) William Owen, Huw Williams, Aled Griffiths, Rhodri Wigley, Glyn Jones, Huw Williams, Paul Hughes

*19:382: Datganiadau o ddiddordeb*: Dim

19:383: *Cyflwyno a derbyn cofnodion Mai 2022*

Nodwyd mai cael eu gollwng i Gors Dyfi mewn cawell oedd yr afancod ac wedi dianc o'r gawell ac o Gors Dyfi wnaethant. Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir fel arall gan Dafydd Evans. Fe'i heiliwyd gan Deryck Lewis.

*19:384: Adroddiad y Clerc*:

- Mae'r holl faterion priffyrdd wedi cael eu hadrodd.
- *Mae Brian Roberts, Corris wedi cwblhau'r gwaith ar fwâu eglwys Llanwrin. Canmolwyd y gwaith a mynegwyd diolch iddo am ei waith cywrain a phrydlon.*

1. *19:385:* Cynllunio Cyfeirnod: 22/0897/FUL Cynnig: Tai cwmwl ('earth-sheltered cloudhouses) (hyd at 4) ar gyfer gwyliau hunan-lywio, derbynfa a gwaith cysylltiedig. Cyfeiriad y Safle: i'r dwyrain i Gemaes, Machynlleth, Powys (http://pa.powys.gov.uk/onlineapplications/) *Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais ar y sail ganlynol:*

1. Effaith bosibl ar Fferm Wynt Mynydd Cemaes

Yn sgil lefelau sain a pha mor agos fydd y cabanau at y melinau gwynt, pryderwn y gallai'r datblygiad gael effaith ar weithrediad y Fferm Wynt yn y dyfodol, pe byddai cwyn a dyfarniad o blaid y cabanau (fel y cyfeirir atynt yn sylwadau Iechyd yr Amgylchedd a Gwarchod yr Amgylchedd).

Hefyd, gallai bodolaeth y datblygiad atal unrhyw ail-ddatblygiad neu ymestyn y fferm wynt yn y dyfodol, yn sgil y lefelau swn a'r effaith ar y cabanau.

2. Lleoliad anaddas

Roedd y Cyngor o'r farn fod hwn yn lleoliad anaddas ar gyfer datblygiad o'r fath, gan ei fod ar fynydd agored. Byddai'r lleoliad ychydig islaw'r grib yn golygu fod y datblygiad yn weledol iawn o'r dyffryn, yn enwedig gyda golau yn adlewyrchu oddi ar y ffenestri ar flaen y cabanau.

Pryderwn hefyd y byddai hyn yn gosod cynsail ar gyfer datblygiadau pellach ar gopaon bryniau a mynyddoedd yn yr ardal.
Byddai hyn yn newid cymeriad tirwedd yr ardal.

3. Mynediad ac amwynderau

Nid oedd y Cyngor o'r farn fod y ffordd yn addas i geir i gyrraedd y datblygiad. Mae'r ffordd o'r gyffordd â'r C2082 i ben Moel Eiddew yn serth ac anwastad, a allai fod yn beryglus i geir heb yriant 4 olwyn.

Roedd pryder hefyd am y maes parcio, lle byddai angen lle i 10 o geir ar ben Moel Eiddew, ac am y dulliau o waredu gwastraff a charthion, ac effaith hynny ar natur a bioamrywiaeth ar y safle.
Cynigiwyd hwn gan Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan Deryck Lewis.

*19:386: Materion ariannol ac eitemau i'w talu*
*19:386:1: Diweddariad Ariannol Cyflwynwyd y diweddariad ariannol hyd at fis Mehefin i'r Cyngor. Cynigiodd Bedwyr Fychan y dylid ei dderbyn ac fe'i heiliwyd gan bawb.*
*19:387:2: Taliadau: Cyflog y Clerc – Mai £272.20 Mehefin £362.80*

- *Gloversure Anfoneb 21866 £36.00, SSL,*
- *£144.00 Anfoneb-22602 Cynnal y wefan –*

*(£180.00 cyfanswm)*

- *Whittingham Riddell £132.00 177174 Ail-ddatgan Cydymffurfedd i'r Rheolwr Pensiynau- Penderfynwyd cael mwy o wybodaeth am hon a'i drafod yn y cyfarfod nesaf.*
- *CThEM/HMRC £177.57*
- *Nodwyd y byddai'n dda gysylltu â Whittingham Riddell i gael gwybod pwy yn union sy'n cyflawni pa ddyletswyddau Mae person dynodedig ar gael ar gyfer cyflog y clerc ond mai nifer o unigolion eraill yn gohebu hefyd. Ceisir eglurder.*
- *Diweddariad ariannol* Mehefin 2022 Derbyniwyd y diweddariad gan Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan bawb (*Gweler yr atodiad am y ddogfen)*

*19:388: Adroddiadau'r Cynghorwyr*

*19:388:!: Adroddiad Llywodraethwyr Ysgol Glantwymyn – Dafydd Evans*

*Braf yw gweld digwyddiadau arferol eto yn yr ysgol megis y diwrnod mabolgampau a'r trip ysgol. Roedd y ddau ddiwrnod yn dda ac yn lllwyddiannus ac mae pob dim yn addo'n gadarnhaol.*

*19:388:2: Y Fforwm Cleifion - Gwenfair Davies. Bydd y Fforwm Cleifion yn ail ddechrau cwrdd ar ôl cyfnod y Pandemig. Gobeithir ei gynnal ym mis Gorffennaf a bydd yn gyfle i drafod y datblygiad newydd ar safle Ysbyty Bro Ddyfi. Bydd swyddog o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys sydd yng ngofal y prosiect yn rhoi taith rithiol a chyflwyniad am y datblygiad newydd.*

*Ymysg y gwasanaethau fydd yn yr adeilad newydd fydd y Feddygfa.*
*Mae cwynion cyffredinol yn yr ardal bod diffyg meddygon. Atgoffir y cleifion, os bydd pryderon yn codi nodir mai'r ffordd orau i'w mynegi yw drwy law'r Cyngor Iechyd Cymunedol sy'n gallu edrych ar bob pryder yn wrthrychol gyda'r grym i weithredu.*

19:389: *Gohebiaeth*: Dim

*19:390:* Materion *Priffyrdd a Phontydd – Dim!*
*19:391:1: Unrhyw fater Arall.*

*Afancod (19:372)- Cysylltir â Carol Fielding i ofyn am y newyddion diweddaraf ac ymateb ac unrhyw gamau gweithredu yn dilyn cyflwyno ei hadroddiad i Iwan Huws, Pennaeth y Tîm Trwyddedu.*

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30
Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau 28.7.22
(Ni chynhelir cyfarfod ym mis Awst yn ôl yr arfer.)

---

**Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes 7.7.22**

Daeth llythyr i law yn gofyn am arian ar gyfer Traed Bêch Twymyn. Er mwyn i bawb gael amser i ystyried y ddogfennaeth penderfynwyd gosod y cais ar agenda'r mis nesaf er mwyn gwneud daioni ag ef.
Mynegwyd llawenydd bod y fath ddatblygiad sydd yn fawr ei angen ar gael. Cytunwyd y byddai'n cynnig gwasanaeth gwerthfawr i blant yr ardal a dilyniant addysgol cyson nad yw'r system addysg leol yn ei ddarparu ar hyn o bryd.
Daeth y cyfarfod i ben am 8.45